

2 beth sy'n cysylltu

Mae gwneud cysylltiadau yn darged gan lawer o blant felly mae'n bwysig fod plentyn yn gallu enwi gwrthrych a'i gysylltu o i wrthrych sy'n perthyn a dechrau rhesymu pam.



Dyma engreifftau o bethau sy'n cysylltu. Gallwch chwilio ar Google images a gwneud rhai i'w rhoi ar i pad yn hawdd.

Mae'n bwysig y gall eich plentyn enwi y pethau a wedyn eu cysylltu gyda'i gilydd ee :-

“Ti angen ambarel pan mae hi yn bwrw glaw .” Neu “Afal ydi o. Mae afal yn tyfu ar goeden .”

Mae gweithgareddau fel hyn yn help i ddysgu gerifa, i ddysgu gwybodaeth a'i gofio fo, i feddwl yn resymegol, i feddwl pam ac i wneud cysylltiadau fydd yn helpu eu sgiliau cofio tymor hir.

Gweithgareddau allai helpu :-

- Yn y gegin rhowch bethau gyda'i gilydd ee. cylllell a fforc, bowlen a llwy , cwpan a soser, bara a menyn, sudd oren a gwydr , bag te and tepot ayyb. Enwi a thrafod.
- Defnyddiwch y cardiau Pethau Sy'n Perthyn i chwarae gêm Pick a Pair- modelwch atebion da ar eich tro chi – Mae Set A a Set B yn cydfynd. Mae 5 set i'w defnyddio. Torrwch y cardiau allan a gofyn i'r plentyn ddewis 2 beth sy'n perthyn – modelwch yr ateb ee. “Ydi – mae babi a napi yn perthyn am fod babi angen gwisgo napi ”.
- Gwnewch setiau anghywir a gofyn i'r plentyn eu sortio yn gywir a dechrau dweud pam
- Gwnewch gardiau eich hun drwy wneud lluniau pethau sy'n perthyn
- Tynnwch luniau syml ee. olwyn, pysgodyn, aderyn , car, enfys, tŷ, map, esgid a gofyn i'r plentyn wneud llun rhywbeth sy'n cysylltu
- Defnyddiwch degannau – bat and a pêl, injan dân a dyn tân, doli and pram, dyn lego a car lego ayyb.
- Defnyddio llyfrau lluniau ac enwi pethau sy'n perthyn ee. aderyn a nyth, ci ag asgrwn neu ci a cwt, tren ar y trac neu long ar y môr
- Mae taflenni “Odd one out “ i'w cael ar Google
- Chwarae gem cysylltu geiriau – dach chi'n dweud banana mae'r plentyn yn dweud mwnci, dach chi'n dweud siarc mae'r plentyn yn dweud dannedd , dach chi'n dweud balwn mae'r plentyn yn dweud parti ayyb.
- Gofynnwch gwetiynnau ee. dangoswch lun a gofyn “Be fysa yn gallu mynd efo hwn ?”
- Tu allan chwiliwch am bethau sy'n perthyn ee. blodau a pot, dail a choeden, pêl a gôl, beic a helmet, simdde a mwg , glaw a phyllau dŵr etc.

